**Safonau'r Gymraeg**
*Rhestr Wirio Hunanreoleiddio 2019*

# Cynnydd safonau'r Gymraeg

*Crynodeb o safonau perthnasol ynghlwm fel Atodiad 1*

| *Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir ac a dderbynnir gan gorff (1-7)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| RMae Royal Voluntary Service yn cyfateb yn Gymraeg pan ydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu pan ydym yn derbyn cais penodol. Er mwyn hwyluso ymatebion amserol a chadarn, rydym wedi nodi siaradwyr Cymraeg ar draws gwasanaethau a gweinyddu canolog sy'n gallu cyfieithu gohebiaeth a ddaw i mewn ac a aiff allan pan nad yw deilydd arbenigol y swydd yn siarad Cymraeg.<br><br>**Mae troedyn e-bost Royal Voluntary Service yn cynnwys:**<br><br>We welcome correspondence in Welsh or English / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.<br><br>This email is confidential and intended solely for the addressee and others authorised to receive it. If you are not the intended recipient, any disclosure, copying, distribution or action taken in reliance on the contents of this email or any attachments is prohibited. If you have received this e-mail in error please contact the sender immediately and destroy all copies of it. Any opinion expressed in this e-mail or any attachments are those of the individual and not necessarily those of Royal Voluntary Service and Royal Voluntary Service cannot accept liability for statements which are not made on behalf of the Royal Voluntary Service. If you do not think that Royal Voluntary Service should be mailing you, please reply to this email and let us know. Our privacy policy is available at www.royalvoluntaryservice.org.uk<br><br>Mae'r e bost hwn yn gyfrinachol ac at sylw priodol yr unigolyn neu'r sefydliad a enwir uchod. Os nad chi yw'r derbynnydd priodol ond eich bod wedi derbyn y neges e-bost hwn trwy gamgymeriad, gwaherddir ei defnyddio, ei lledaenu, ei hanfon ymlaen, ei hargraffu a'i chopio neu ei defnyddio. Os ydych wedi derbyn y neges ar gam, rhowch gwybod i'r sawl sy wedi anfon yr e bost ar unwaith a dinistrio pob copi heb ei anfon at unrhyw drydydd parti. Bydd unrhyw farn neu sylwadau a fynegir yn yr ebost neu unrhyw ffeiliau atodedig yn perthyn i'r awdur yn unig ac ni chynrychiolant o anghenraid farn Royal Voluntary Service. Nid yw Royal Voluntary Service yn derbyn atebolrwydd am ddatganiadau sydd ddim ar ran Royal Voluntary Service. Os na ddylir Royal Voluntary Service e bostio chi, atebwch yr e bost hwn a rhowch wybod iddyn ni. Mae ein polisi preifatrwydd ar gael at www.royalvoluntaryservice.org.uk<br><br>Mae'r holl rolau o fewn Royal Voluntary Servicel ledled Lloegr, yr Alban a Chymru wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ac fe'u defnyddir gan yr holl staff fel rhan o'u llofnod e-bost.<br><br>Fodd bynnag, ni fyddai cydymffurfio â safonau 3, 4 a 5 yn ein barn ni yn rhesymol a chymesur oherwydd y gost o gydymffurfio'n llawn â'r safonau. Ni fyddai'r gwariant yn hyrwyddo buddiannau mwyafrif buddiolwyr yr elusen. | **Ydy (rhannol)** |

| ***Safonau sy'n berthnasol i alwadau ffôn a wneir ac a dderbynnir gan gorff (8-22)*** | ***Ydy/Nac ydy*** |
| --- | --- |
| Mae Royal Voluntary Service yn cynnig dewis iaith Gymraeg ar eu prif linell gyswllt. Mae cofnodion yn dangos fe wnaeth 533 o bobl ddewis yr opsiwn Cymraeg yn y cyfnod 12 mis diweddaraf (1% o'r holl alwadau)<br><br>Gofynnir i aelodau'r staff sy'n siaradwyr Cymraeg gynnwys unrhyw neges gyswllt ar ffonau symudol yn y Gymraeg.<br><br>Mae'r prif swyddfeydd yng Nghymru yn cynnwys negeseuon ateb dros y ffôn yn Gymraeg. Pan atebir galwad a gofynnir am y Gymraeg, os nad yw siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith, cynigir galwad yn ôl i'r galwr cyn gynted ag y bo modd gyda siaradwr Cymraeg neu i sgwrsio yn Saesneg.<br><br>Wrth ystyried safonau 8-11 a 15-22 mae angen i Royal Voluntary Service sicrhau bod asedau'r elusen yn cael eu defnyddio'n bennaf i hyrwyddo ei fuddiannau, felly byddai'n afresymol a anghymesur i ddarparu adnoddau ychwanegol ddelio â galwadau Cymraeg, ynghyd â chofnodi dewis iaith galwyr.<br><br>Dylid nodi bod rhai galwadau'n cael eu trosglwyddo i wirfoddolwyr, ac na fyddai'n bosibl sicrhau bod gwirfoddolwyr â sgiliau iaith Gymraeg ar gael bob tro. | **Ydy (rhannol)** |

| ***Safonau sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd sydd ar agor ac ar gau i'r cyhoedd (23 – 34)*** | ***Ydy/Nac ydy*** |
| --- | --- |
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cynnal unrhyw gyfarfodydd yn Gymraeg fel mater o drefn. Nid ystyrir bod y safonau perthnasol yn rhesymol a chymesur â'r gweithgarwch strategol a gweithredol a wneir.<br><br>Fodd bynnag, ystyrir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd sy'n ddigon mawr i gyfiawnhau'r ddarpariaeth, e.e. pe byddai 50% neu fwy o'r rhai a oedd yn bresennol wedi dweud y byddent yn hoffi cyfrannu yn y Gymraeg.<br><br>Dylid nodi y byddai'n fwy o her i ddarganfod y niferoedd hyn cyn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.<br><br>Er gwaethaf y datganiad cyffredinol hwn, os gofynnir am gyfarfodydd yn Gymraeg a gall staff/gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg fod ar gael, mae Royal Voluntary Service yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r cais hwn.<br><br>Ar hyn o bryd mae oddeutu 50% o weithgareddau yng Ngogledd Cymru yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Nid adlewyrchir hyn yng Nghanolbarth neu Dde Cymru lle mae argaeledd staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol llai. | **Nac ydy (cynnydd a wnaed)** |
| **Safon 30**<br>Rhoddir blaenoriaeth uchel i arddangos deunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod a drefnir gan Royal Voluntary Service sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae deunyddiau marchnata a gwybodaeth gan gynnwys baneri a thaflenni ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru ar gael yn yr iaith Gymraeg e.e. y rhaglen weithgarwch Camau Cadarn/Positive Steps. | **Ydy** |

| *Safonau sy'n ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn gyfan gwbl gan gorff (35 -36)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn darparu digwyddiadau cyhoeddus yn Gymraeg fel mater o drefn. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn rhesymol nac yn gymesur oherwydd costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl ddigwyddiadau'r sefydliad. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu corff (37)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service wedi cynyddu'n sylweddol argaeledd posteri, taflenni, gwybodaeth gyffredinol sydd ar gael yn Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddeunyddiau sy'n berthnasol i wasanaethau yng Nghymru ar gyfer gweithgarwch gwirfoddol, cymunedol a GIG. Mae hyn hefyd yn cynnwys recriwtio staff a gwirfoddolwyr a gweithgarwch hyrwyddol.<br><br>Fodd bynnag, ni fyddai sicrhau bod y safon hon yn gymwys yn rhesymol nac yn gymesur, oherwydd diffyg adnoddau a'r galw isel a nodwyd am fersiynau Cymraeg o adnoddau cyfredol. | **Ydy (rhannol)** |

| *Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus (38-39)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Fel uchod mae Royal Voluntary Service wedi cynyddu argaeledd ac amrywiaeth taflenni a baneri Cymraeg, ond darperir adnoddau eraill megis pennau ysgrifennu, poteli dŵr, deunyddiau treftadaeth yn Saesneg yn unig er mwyn lleihau costau cynhyrchu.<br><br>Ni fyddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys yn rhesymol nac yn gymesur oherwydd y ffaith bod rhai adnoddau marchnata wedi'u dosbarthu ledled y DU.<br><br>Mae safleoedd manwerthu Royal Voluntary Service ledled Cymru yn cynnwys arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog. | **Ydy (rhannol)** |

| *Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau (40-49)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service yn cynhyrchu ymchwil yn aml ond nid fel mater o drefn yn Gymraeg. Caiff dogfennau sy'n berthnasol yn benodol i Gymru eu cynhyrchu yn Gymraeg, ond ni chynhyrchir dogfennau eraill yn Gymraeg.<br><br>Nid yw'r safonau dan sylw yn rhesymol nac yn gymesur; rhaid i Royal Voluntary Service sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio yn unol â buddiannau'r elusen. Ar hyn o bryd byddai cost cynhyrchu holl ddogfennau'r sefydliad yn afresymol ac o bosibl yn wastraffus.<br><br>Ni chaiff fersiynau Cymraeg o ddogfennau cyhoeddedig eu trin yn llai ffafriol nag unrhyw fersiynau Saesneg. | **Nac ydy** |

| Safonau ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni (50-51) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cynhyrchu nac yn cyhoeddi ffurflenni yn Gymraeg fel mater o drefn.<br>Nid ystyrir bod y safon hon yn rhesymol nac yn gymesur gan fod y gost barhaus o gyfieithu yn afresymol. | **Nac ydy** |

| Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff (52-57) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service yn cynnwys y ddau wasanaeth ond nid trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Mae cost darparu gwefan Gymraeg wedi'i dilyn ond mae cost darparu pob tudalen ar y wefan yn Gymraeg, â rhyngwyneb a dewislenni yn Gymraeg ar gyfer pob tudalen o'r wefan yn gostus iawn a'r casgliad yw nad yw gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys yn rhesymol nac yn gymesur.<br>Mae'r wefan yn cynnwys datganiad bod fersiynau Cymraeg o dudalennau Saesneg ar gael lle mae'n berthnasol.<br>Nid yw Royal Voluntary Service yn cyhoeddi apiau ar hyn o bryd. | **Nac ydy** |

| Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff (58-60) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service yn arddangos cymaint o arwyddion â phosibl yn Gymraeg.<br>Darperir arwyddion dwyieithog ar gyfer gwasanaethau cymorth a manwerthu mewn ysbytai yng Nghymru. Mae arwyddion yn y brif swyddfa ym Mhorth Caerdydd yn ddwyieithog ac mewn gwasanaethau cymunedol yng Ngogledd Cymru. Bydd gwasanaethau yng nghanolbarth a de Cymru yn dilyn yn ystod y 12 mis nesaf.<br>Fodd bynnag, ni ystyrir bod yr holl safonau cysylltiedig yn rhesymol nac yn gymesur. Nid yw Safon 58 yn ymarferol gan nad yw cyfieithydd mewnol i gyfieithu arwyddion ar fyr rybudd ar gael. Mewn cysylltiad â safon 59, mae nifer o arwyddion presennol eisoes wedi'u cynhyrchu nad ydynt yn dangos y Gymraeg yn gyntaf. Byddai'n afresymol o ran cost i atgynhyrchu'r arwyddion hyn er mwyn gosod y Gymraeg yn gyntaf. | **Ydy (rhannol)** |

| Safonau ar gyfer corff sy'n derbyn ymwelwyr i'w safleoedd (61-66) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service yn derbyn ymwelwyr yn y Brif Swyddfa yng Nghaerdydd a swyddfeydd rhanbarthol ond nid fel mater o drefn yn Gymraeg.<br>Mae'r dderbynfa yn y brif swyddfa yn darparu arwyddion dwyieithog a thrwyddedau dwyieithog ar gyfer ymwelwyr, ond ni all siaradwr Cymraeg fod ar gael i dderbyn ymwelwyr bob dydd.<br>Yng Ngogledd Cymru mae staff ar gael i dderbyn ymwelwyr pan yw'r swyddfa ar agor, er na ellir gwarantu hyn yng Nghanolbarth a De Cymru.<br>Er bod Royal Voluntary Service wedi gwneud cynnydd ni ystyrir bod y safonau dan sylw yn rhesymol ac yn gymesur, gan na all siaradwr Cymraeg fod ar gael i dderbyn ymwelwyr ar bob achlysur. Byddai'n afresymol o ran cost i ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd i dderbyn ymwelwyr yn Gymraeg.<br>Mae staff a gwirfoddolwyr wedi cael gwybod bod bathodyn a llinyn ar gael os ydynt am nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. | **Ydy (rhannol)** |

| *Safonau ar gyfer hysbysiadau swyddogol a wneir gan gorff (67-68)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd dan sylw.<br>Ni ystyrir bod y safon hon yn rhesymol nac yn gymesur, gan nad yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer dyfarnu grantiau (69-73)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd dan sylw.<br>Ni ystyrir bod y safon hon yn rhesymol nac yn gymesur, gan nad yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer dyfarnu grantiau (74-78)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd yn Gymraeg.<br>Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau lle tendrir am wasanaethau wedi'u lleoli ledled y DU, ac ni ellir cynnal hyn yn Gymraeg (gan gynnwys unrhyw ofynion cyfieithu) am resymau cost a diffyg adnoddau staff.<br>Nid yw'r safon dan sylw yn rhesymol nac yn gymesur. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth am wasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff (79-80)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Er bod adran 12 (2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg nodi'r ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei hysbysebu. Mae'r Comisiynydd wedi pwysleisio nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.<br>Mae gan wasanaethau Cymraeg ar gael a gallant ddatgan hyn pan wneir ceisiadau am y gwasanaethau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r safonau dan sylw yn rhesymol a chymesur, gan na fyddai'r holl ddogfennau a ffurflenni cysylltiedig ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys deunydd ar dudalennau'r wefan sy'n berthnasol i'r DU gyfan.<br>O fewn gwasanaethau manwerthu, cynhelir rhestr o staff a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ar y pwynt til rhag ofn y gofynnir am siaradwr Cymraeg ac nad yw'r unigolyn sydd ar ddyletswydd yn siarad Cymraeg.<br>Nid yw Royal Voluntary Service yn gweithredu polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol i hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er bod y % o weithwyr a leolir yng Nghymru wedi codi o 12% i 16% dros y 18 mis diwethaf, ni ystyrir ei fod yn rhesymol neu'n gymesur i gyfieithu pob dogfen ar gyfer y gyfran hon o staff. | **Ydy (rhannol)** |

| *Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff (81)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw hunaniaeth Royal Voluntary Service yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg gan ei bod yn hunaniaeth frand.<br>Felly ni fyddai modd ystyried gwneud y safon hon yn gymwys; ni fyddai'n rhesymol nac yn gymesur. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff (82-84)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd hwn. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer systemau annerch y cyhoedd a ddefnyddir gan gorff (85)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cyflawni'r gweithgaredd hwn. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer Gwneud Polisïau (86-95)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Mae polisïau Royal Voluntary Service yn ddogfennau mewnol a ddefnyddir drwy gydol yr elusen. Ystyrir yr iaith Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol (mewn deunyddiau marchnata, er enghraifft), ond byddai penderfyniadau ar unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn dibynnu ar argaeledd cyllid yn hytrach nag ar bolisi.<br>Wrth asesu polisïau newydd neu ddiwygiedig, ni ystyrir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg mewn modd ffurfiol. Yn gyffredinol, ni cheisir barn ffurfiol ynghylch polisïau, er bod gwirfoddolwyr a gweithwyr yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y dulliau arfaethedig o weithio a chyfathrebu.<br>Nid yw Royal Voluntary Service yn ystyried bod y safonau ar gyfer llunio polisïau yn rhesymol a chymesur. | **Nac ydy** |

| *Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff (96-109)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn gweithredu polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol, mae llai na 19% o weithwyr wedi'u lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd a byddai'n afresymol ac anghymesur i gyfieithu'r holl ddogfennau dan sylw ar gyfer y gyfran hon o staff. | **Nac ydy** |

| Safonau ar gyfer cwynion a wneir gan aelodau o staff y corff (110-113) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Mae gan Royal Voluntary Service bolisi a gweithdrefn ar gyfer cwynion ac achwyniadau, ond ni chynigir hyn yn Gymraeg. Byddai angen gweithredu unrhyw broses ymchwilio neu gefnogi dilynol yn gyson ar draws yr Elusen a fyddai'n cynnwys staff o bob rhan o'r DU. | Nac ydy |

| Safonau ar gyfer corff sy'n disgyblu staff (114-117) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion safonau 114-117. Er bod staff yn gallu ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn trwy broses ddisgyblu fewnol, ni roddir cyhoeddusrwydd i hyn. Gellir cynnal cyfarfod yn Gymraeg os gofynnir amdano trwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a gallai rheolwyr gynnal cyfarfodydd yn y Gymraeg eu hunain mewn rhai achosion.<br><br>Fodd bynnag, mae'r broses ddisgyblu yn un sy'n sensitif i amser, a byddai unrhyw oedi o ran argaeledd cyfieithydd addas yn golygu bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Saesneg. | Ydy (rhannol) |

| Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunydd cymorth a ddarperir gan gorff, a'r fewnrwyd (118-124) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Mae Royal Voluntary Service yn darparu meddalwedd cyfrifiadurol i staff ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg, a rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd lle mae rhyngwyneb eisoes yn bodoli. Ni ddarperir y fewnrwyd yn Gymraeg, oherwydd cost a diffyg adnoddau staff. | Ydy (rhannol) |

| Safonau ar gyfer datblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy gynllunio a datblygu'r gweithlu (125-133) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion safonau 125-133. Mae arwyddion o fewn y brif swyddfa a Gogledd Cymru yn ogystal â safleoedd manwerthu yng Nghymru yn ddwyieithog ond nid safleoedd cyffredinol yng nghanolbarth a de Cymru. | Ydy (rhannol) |

| Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain mewn gweithle corff (142) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn gwneud cyhoeddiadau gan ddefnyddio offer sain yn y gweithle. | Nac ydy |

| Safonau hyrwyddo (143-144) | Ydy/Nac ydy |
|---|---|
| Fel elusen genedlaethol, ni all Royal Voluntary Service drefnu bod y safonau hyrwyddo'n gymwys oherwydd cost. | Nac ydy |

| *Safonau ar gyfer cadw cofnodion (145-157) (gweler y tabl hunanreoleiddio isod)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Wrth ystyried y safonau ar gyfer cadw cofnodion, mae Royal Voluntary Service yn cofnodi nifer y gwirfoddolwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, manylion y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg, ynghyd â'r ymatebion iddynt.<br><br>O ran y safonau sy'n ymwneud â recriwtio, byddai siaradwr Cymraeg yn bresennol mewn cyfweliadau ar gyfer unrhyw swydd lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol er mwyn asesu sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeiswyr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw swydd o'r fath yn bodoli yn yr Elusen.<br><br>Er bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddatblygu'r safonau ar gyfer cadw cofnodion, ni fyddai cofnodi'r holl wybodaeth dan sylw yn ddefnydd effeithiol o adnoddau ac felly ni ystyrir ei fod yn rhesymol nac yn gymesur. | **Ydy (rhannol)** |

| *Safonau sy'n delio â materion atodol mewn perthynas â safonau cadw cofnodion (178-179)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Nid yw Royal Voluntary Service yn ystyried bod y materion atodol mewn perthynas â'r safonau cadw cofnodion yn rhesymol nac yn gymesur. Ni chedwir cofnodion perthnasol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel mater o drefn a byddai'n her i wneud hynny gan ystyried yr angen i ddefnyddio adnoddau'r elusen yn effeithiol. | **Nac ydy** |

# *Rhestr wirio hunanreoleiddio*

| ***Cadw cofnodion*** | ***Ydy/Nac ydy*** |
|---|---|
| **Mae'r sefydliad yn:**<br>• Cadw cofnod o nifer y cwynion mae'n eu derbyn yn ymwneud â'i gydymffurfiad â'r safonau; **Ni dderbyniwyd unrhyw un**<br>• Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig mae'n ei dderbyn yn ymwneud â'i gydymffurfiad â'r safonau; **Ni dderbyniwyd unrhyw un**<br>• Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig mae'n ei dderbyn sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg:<br>• **1 cwyn ynghylch cyfarfod gwirfoddolwyr yn cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru na ellid ei gynnig yn Gymraeg - erbyn hyn mae mesurau yn eu lle i unioni hyn**<br>• **1 cwyn ynghylch poster cynnig gwasanaeth nad oedd yn ddwyieithog - wedi'i gywiro erbyn hyn.**<br>Mae Royal Voluntary Service yn sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn drylwyr. Cytunwyd ar broses i sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg dynodedig yn cyfieithu unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg a chyfieithu ymateb gan unrhyw ymatebydd di-Gymraeg. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy |
| **Mae'r sefydliad yn cadw cofnod o'r camau mae wedi'u cymryd i sicrhau cydymffurfiad â'r safonau ar gyfer llunio polisïau:**<br>• Nid yw Royal Voluntary Service yn ystyried bod y safonau penodol ar gyfer llunio polisïau sy'n gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur<br>Mae polisïau yn ddogfennau mewnol sy'n gymwys trwy'r elusen. Ble mae'n berthnasol ystyrir yr iaith Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol (mewn deunyddiau marchnata, er enghraifft neu gyflenwi gwasanaeth), ond rhaid i benderfyniadau ddibynnu ar argaeledd cyllid yn hytrach nag ar bolisi.<br>• Wrth asesu polisïau newydd neu ddiwygiedig ni chaiff asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg ei gynnal yn ffurfiol. Fel arfer nid yw Royal Voluntary Service yn ceisio barnau eang ynghylch polisïau, er bod gwirfoddolwyr a staff yn gallu rhoi sylwadau ar ffyrdd arfaethedig o weithio a chyfathrebu. | Nac ydy |
| **Mae'r sefydliad yn:**<br>Cadw cofnod o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau iaith Gymraeg lle mae ganddo'r wybodaeth honno;<br>• **Yng Ngogledd Cymru mae 46% o'r staff a 32% o wirfoddolwyr yn siarad Cymraeg**<br>• **Yn Ne Cymru mae 17% o'r staff a 6% o wirfoddolwyr yn siarad Cymraeg**<br>• **Mae 19% o'r holl staff yn gweithio yng Nghymru**<br>Cadw cofnod o bob asesiad o ran y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi newydd a gwag;<br>• **Hysbysebir pob swydd sy'n benodol i Gymru yn Gymraeg**<br>• **Mae'r RVS yn amlygu sgiliau iaith Gymraeg yn weithredol fel rhai sy'n 'ddymunol' i staff a gwirfoddolwyr ledled Cymru** | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy |

| *Cadw cofnodion (parhad)* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| **Mae'r sefydliad yn:**<br>Cadw cofnod o nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, dymunol, diangen, neu mae angen eu dysgu<br>• **Mae'r holl rolau sy'n benodol i Gymru yn cael eu categoreiddio fel rhai lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol. Os gwelwch yn dda, nodwch ein bod yn awyddus fel elusen genedlaethol i sicrhau cydraddoldeb ar draws ein cynigion gwasanaeth.** | **Ydy** |
| Mae Royal Voluntary Service yn croesawu siaradwyr Cymraeg, ond nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer unrhyw swyddi cyfredol o fewn yr elusen. Mae cyflogeion yn cael eu recriwtio ar sail eu gallu i gyflawni rolau penodol. Nid yw gwiriadau ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg yn rhan o'r broses recriwtio gyfredol | |
| Mae'r sefydliad yn cadw cofnod o'r nifer (a'r ganran, os yw'n berthnasol) o aelodau'r staff a fynychodd hyfforddiant penodol mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch)<br>• I raddau helaeth cynhyrchir deunyddiau hyfforddi Royal Voluntary Service ar gyfer cymorth/gweithgarwch ar-lein i'r holl staff a gwirfoddolwyr ar lefel genedlaethol. Er ein bod wedi adolygu'r deunyddiau i'w cyfieithu i'r iaith Gymraeg, ar hyn o bryd mae'r gost yn afresymol.<br>• **Gellir trefnu bod rhai deunyddiau hyfforddi ar gael mewn copi caled hefyd. Os gall rheolwr/aelod cymorth penodol o staff siarad Cymraeg, byddai'n bosibl iddynt gynnal hyfforddiant ac ymsefydlu yn Gymraeg, ond byddai'r deunydd ar gael yn Saesneg yn unig.**<br>• **Nod Royal Voluntary Service yw datblygu a thyfu deunyddiau hyfforddi yn yr iaith Gymraeg. Mae llawlyfrau a gynhyrchwyd ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr o'r enw 'Diogel a Chyfreithiol' yn ganllawiau cryno sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl wasanaethau a gynhyrchir yn Gymraeg.** | **Nac ydy** |

| *Trefniadau hyrwyddo* | *Ydy/Nac ydy* |
|---|---|
| Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n cofnodi'r holl safonau mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (e.e. trwy gyhoeddi copi o'i hysbysiad cydymffurfio) .<br>• **Mae copi o gydymffurfiaeth â safonau a nodwyd a'r rhestr wirio hunanreoleiddio ar gael ar y wefan**<br>• **Nod Royal Voluntary Service yw cefnogi'r iaith Gymraeg ac mae'r wefan yn datgan 'bydd unrhyw gynnwys ar y wefan hon sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu Gymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd unrhyw beth ar y wefan hon sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg neu Gymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg.**<br>Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi gweithdrefn gwynion ar ei wefan.<br>• **Mae Royal Voluntary Service yn cydymffurfio â gweithdrefn gwynion sy'n berthnasol i bob gweithgaredd. Nid yw unrhyw weithgaredd o fewn y weithdrefn gwynion yn cael ei amlygu'n benodol fel un sy'n cynnwys cydymffurfiaeth yr Iaith Gymraeg.** | **Ydy**<br><br>**Ydy** |
| **Mae'r weithdrefn gwynion yn nodi sut y bydd y sefydliad yn:**<br>• Goruchwylio ei gydymffurfiad â'r safonau mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br>• Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau.<br>• Hwyluso'r defnydd o wasanaethau Cymraeg mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau.<br>• **Mae Royal Voluntary Service yn darparu gwasanaethau lluosog ar draws cymunedau ac o fewn y GIG. Mae hyn yn cynnwys gwirfoddoli, cyflogaeth ac ymchwil. Mae'r weithdrefn gwynion yn ymwneud â phob gweithgaredd ac fe'i hystyrir yn gymesur ar hyn o bryd.**<br>Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n esbonio sut mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. | **Nac ydy** |

| ***Adroddiad blynyddol*** | ***Ydy/Nac ydy*** |
|---|---|
| Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar safonau'r iaith Gymraeg ar ei wefan naill ai erbyn 30 Mehefin (rheoliadau rhif 1) neu ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol (rheoliadau eraill).<br><br>**Mae rhestr wirio Safonau yr Iaith Gymraeg a Hunan-reoleiddio 2017/18 a chrynodeb ategol ar gael ar y wefan Royal Voluntary Service.** | **Ydy** |
| Mae'r sefydliad wedi cyhoeddi'r adroddiad blynyddol. | **Ydy** |
| **Yr adroddiad blynyddol:**<br>• Yn ymdrin â'r ffordd mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â'r gwahanol ddosbarthiadau o safonau a osodir arno;<br>• Yn cynnwys nifer y cyflogeion sydd â sgiliau iaith Gymraeg;<br>• Yn cynnwys y nifer (a'r ganran, os yw'n berthnasol) o aelodau'r staff a fynychodd hyfforddiant penodol mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch)<br>• Yn cynnwys nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, dymunol, diangen, neu mae angen eu dysgu<br>• Yn cynnwys nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad ynghylch pob dosbarth o safonau. | **Ydy** |

Mae Royal Voluntary Service yn gwmni cyfyngedig trwy warant wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr â rhif cwmni 2520413. Swyddfa gofrestredig Beck Court, Cardiff Gate Business Park, Cardiff, CF23 8RP.
Roedd yr holl ystadegau a'r data'n gywir ar adeg cyhoeddi. Elusen gofrestredig 1015988 (Cymru a Lloegr) a SC038924 (yr Alban).